Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Sgiliau Byw'n Annibynnol

## Manyleb y Rhaglen

Mae'r fersiwn hon o'r fanyleb yn ddilys nes hysbysir y sector AB fel arall

Cyhoeddwyd ym mis Mai 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

## Tabl y Cynnwys


1. Cyflwyniad....3
2. Trosolwg o'r Cwricwlwm Sgiliau Byw'n Annibynnol ....3
3. Gofynion Rhaglenni Unigol....4
4. Cyllid y Rhaglen....4
5. Gofynion Cyflwyno Data....5

Cod y Rhaglen....5

Cofnodi Gweithgaredd Nas Achredir....5

Gweithgaredd craidd....5

Prif weithgaredd ....6

Unedau o Gymwysterau Gweithgareddau Dysgu Asesadwy Eraill (CLIF)....6

Gweithgaredd Profiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith ....6

6. Monitro a Deilliannau Dysgu ....7
7. Manylion Cyswllt....7
8. Atodiadau....8

A. Manyleb Rhaglen Llwybr 1 ....8

B. Manyleb Rhaglen Llwybr 2 ....12

C. Manyleb Rhaglen Llwybr 3 ....16

D. Manyleb Rhaglen Llwybr 4 ....21

E. Dysgwyr o Raglenni Prif Ffrwd sy'n Cael Mynediad at ddarpariaeth Llwybr 4 ....24

## 1. Cyflwyniad

Mae'r fanyleb rhaglen hon yn nodi'r model darparu ar gyfer rhaglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol (ILS) amser llawn. Mae'n darparu trosolwg o'r diben a'r deilliannau ynghyd ag elfennau pob rhaglen Sgiliau Byw'n Annibynnol

Mae'r fanyleb hefyd yn manylu ar y gofynion ar gyfer cofnodi'r rhaglenni, a'u gweithgareddau dysgu cysylltiedig, ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR).

## 2. Trosolwg o'r Cwricwlwm Sgiliau Byw'n Annibynnol

Datblygwyd y cwricwlwm Sgiliau Byw'n Annibynnol mewn ymateb i'r argymhellion a nodwyd yn Adroddiad Thematig Estyn yn 2017 ac mae pob rhaglen wedi'i bwriadu i ddarparu dull ymarferol ar gyfer ennill a chyfnerthu sgiliau, i baratoi dysgwyr ar gyfer bywyd fel oedolion.

Tanategir y cwricwlwm gan ddull darparu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gydnabod bod dysgu ac addysgu'n fwyaf effeithiol pan ydynt yn seiliedig ar anghenion, diddordebau a dyheadau dysgwyr eu hunain.

Ceir pedair rhaglen ddysgu amser llawn:

- Llwybr 1 – i ddysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu dwys
- Llwybr 2 – i ddysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu difrifol
- Llwybr 3 – i ddysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol a/neu anawsterau a/neu anableddau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl
- Llwybr 4 – i ddysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu ar interniaethau â chymorth. Ni fyddai Medr yn disgwyl i ddysgwyr o raglen briff ffrwd gael mynediad at Lwybr 4 oni bai yr adnabyddir angen. Rhaid i unrhyw ddysgwyr sy'n ymgysylltu â darpariaeth Llwybr 4 o raglenni prif ffrwd gael eu trafod gyda Medr er mwyn i ni allu goleuo polisi yn y maes hwn yn y dyfodol. Ceir ffurflen i wneud hynny yn Atodiad E.

Mae pob Llwybr Sgiliau Byw'n Annibynnol yn seiliedig ar Graidd sy'n cynnwys pedwar conglfaen dysgu:

**Iechyd a Lles**
**Cyflogadwyedd**
**Byw'n Annibynnol**
**Cynhwysiant Cymunedol**

Mae sgiliau cyfathrebu, rhifedd a llythrennedd digidol yn nodwedd allweddol ar ddysgu dan bob Llwybr, gyda chyfleoedd i ddatblygu ac ymarfer y sgiliau hyn wedi'u gwreiddio ym mhob un o'r pedwar conglfaen. Bydd y ddarpariaeth hon yn edrych yn wahanol i bob un o'r pedwar Conglfaen a bydd yn ddibynnol ar sgiliau dysgwyr a'u cyrchfannau hirdymor.

Gall rhaglenni gynnwys profiad sy'n gysylltiedig â gwaith hefyd, ynghyd â chymwysterau neu weithgareddau dysgu asesadwy eraill. Rhaid i gynnwys cymwysterau neu weithgareddau asesadwy eraill ychwanegu gwerth a diwallu anghenion penodol dysgwyr gan eu cynorthwyo i gyrraedd eu cyrchfannau hirdymor.

Mae proses asesiad sylfaenol effeithiol, sy'n ystyried anghenion, galluoedd a dyheadau dysgwyr, yn allweddol i sicrhau addasrwydd y ddarpariaeth. Rhaid i'r asesiad sylfaenol dynnu hefyd ar wybodaeth a ddarparwyd gan y lleoliad addysg blaenorol gan gynnwys dogfennau statudol, y dysgwr, a rhieni/gofalwyr (lle y bo'n briodol). Gall hefyd ystyried gwybodaeth a ddarparwyd gan Wasanaethau Plant ac Oedolion a/neu'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Rhaid i'r holl ddarpariaeth gael ei harwain gan gyrchfan, gan gynnal dull darparu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Dylai dysgwyr fod yn rhan o benderfynu ynghylch eu cyrchfannau hirdymor lle y bo'n bosibl. Rhaid i gynllunio a arweinir gan gyrchfan ddechrau trwy ystyried y sgiliau a'r wybodaeth y bydd ar y dysgwr eu hangen ar gyfer eu camau nesaf tebygol, gan sicrhau eu bod wedi'u harfogi ar gyfer bywyd ar ôl y coleg. Rhaid i raglenni fod wedi'u teilwra i gwrdd ag anghenion a dyheadau dysgwyr unigol. Rhaid bod ganddynt ddeilliannau eglur, yn seiliedig ar bedwar conglfaen Sgiliau Byw'n Annibynnol, a ddyluniwyd gyda'r dysgwr, a chydag amser realistig i ennill a gwreiddio sgiliau a gwybodaeth.

Rhaid bod system hefyd ar gyfer pennu targedau eglur, unigol ac ar gyfer monitro ac adolygu cynnydd yn erbyn y targedau hyn. Dylai rhaglenni fod yn ddigon hyblyg i addasu targedau a gweithgareddau lle y bo angen hefyd.

Er y gall rhaglenni gynnwys ychydig bach o achredu, rhaid i'r ffocws fod ar ddarparu gweithgareddau sy'n adlewyrchu anghenion dysgwyr unigol, gyda chynnydd tuag at ddeilliannau y cytunwyd arnynt yn cael ei gofnodi a'i gymedroli trwy ddulliau sicrhau ansawdd dibynadwy, megis Cydnabod a Chofnodi Cynnydd a Chyflawniad (RARPA).

## 3. Gofynion Rhaglenni Unigol

Mae manylion rhaglenni unigol ar gyfer y 4 Llwybr wedi'u hatodi yn Atodiad A-D.

Mae'r manylebau hyn hefyd yn rhan o'r Cytundeb rhwng sefydliadau addysg bellach (SABau) a Gweinidogion Cymru ar gyfer darparu a chyllido rhaglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol. Rhaid i chi sicrhau bod eich darpariaeth Sgiliau Byw'n Annibynnol yn ymlynu wrth y Fanyleb Rhaglen hon.

Rhaid i'r holl ddysgwyr a gofrestrir ar raglen Sgiliau Byw'n Annibynnol, sydd â hawl statudol i CDU, fod ag un o fewn y cyfnod o amser cytunedig i gael eu cofrestru ar y rhaglen. Mae'n bwysig nodi nad yw Saesneg fel Ail Iaith yn gyfystyr ag angen am ddarpariaeth mewn Sgiliau Byw'n Annibynnol.

## 4. Cyllid y Rhaglen

Yn 2021/22, cyflwynwyd un gyfradd cyllid ar gyfer yr holl ddarpariaeth Sgiliau Byw'n Annibynnol amser llawn. Ceir y gyfradd yn y Cyfeiriadur Rhaglenni. Cyflwynwyd hon yn dilyn adolygiad o'r cyllid ar gyfer y maes dysgu Sgiliau Byw'n Annibynnol, a ddigwyddodd rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ionawr 2020.

Goleuwyd yr adolygiad gan wybodaeth a chyngor ynghylch lefelau staffio a chostau darparu a gyflwynwyd gan SABau. Mae cyfradd y cyllid yn adlewyrchu cost gyfartalog

darparu rhaglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol ar draws y sector ac mae'n seiliedig ar gostau staff dysgu ac addysgu craidd, ynghyd â chodiadau ar gyfer costau rhedeg adrannol a gorbenion eraill. Mae un gyfradd cyllid drwyddi draw yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddosbarthu'n fwy teg a bod gweithgaredd Sgiliau Byw'n Annibynnol yn cael ei gofnodi'n fwy cywir.

## 5. Gofynion Cyflwyno Data

Bydd Medr yn defnyddio data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) i fonitro'r modd y darperir y rhaglen a deilliannau dysgu'r rhaglen ar gyfer Sgiliau Byw'n Annibynnol. Yn unol â'r amodau a nodir yn y *Llythyr Dyfarnu Grant* blynyddol, rhaid i sefydliadau sicrhau bod data'n cael ei gyflwyno yn y fformat cywir ac mewn modd amserol.

Mae [Llawlyfr Cymorth i Ddefnyddwyr LLWR] yn nodi'r canllawiau y dylai sefydliadau eu dilyn wrth gyflwyno data LLWR ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol.

### *Cod y Rhaglen*

Dylid defnyddio'r codau rhaglenni canlynol:

| | |
|---|---|
| **Llwybr 1** | 1401AXXB |
| **Llwybr 2** | 1401BXXB |
| **Llwybr 3** | 1401CXXB |
| **Llwybr 4** | 1401DXXB |

### *Cofnodi Gweithgaredd Nas Achredir*

Mae rhaglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol yn seiliedig ar bedwar conglfaen Sgiliau Byw'n Annibynnol ac, er y gall rhaglenni gynnwys elfen o achredu, dylai'r ffocws ar gyfer dysgwyr fod ar ddarparu gweithgareddau sy'n adlewyrchu anghenion dysgwyr unigol. Dylai cynnydd tuag at ddeilliannau y cytunwyd arnynt gael ei gofnodi a'i gymedroli trwy ddulliau sicrhau ansawdd dibynadwy, megis RARPA.

Gyda hyn mewn golwg, dylai "Craidd" rhaglen nas achredir gynnwys datblygu sgiliau dan y pedwar conglfaen. Lle y bo'n briodol, mae hyn yn cynnwys unedau o gymwysterau neu weithgareddau dysgu asesadwy eraill sy'n gysylltiedig â datblygu sgiliau.

Dylai trwch pob rhaglen berthyn i "Craidd" (LA47 = 04). Mae hyn yn cynnwys unedau penodol o gymwysterau neu weithgaredd dysgu asesadwy arall.

Gofynnir i sefydliadau AB ddefnyddio'r confensiynau codio canlynol:

*Gweithgaredd craidd*

Dylai dysgu anasesadwy sy'n perthyn o dan bedwar conglfaen Sgiliau Byw'n Annibynnol gael ei gofnodi yn LA06 gan ddefnyddio'r fformat canlynol:

| | |
|---|---|
| **Llwybr 1** | LCLLILP1 |
| **Llwybr 2** | LCLLILP2 |

**Llwybr 3** LCLLILP3
**Llwybr 4** LCLLILP4

Nid oes codau gweithgaredd penodol ar gyfer llythrennedd a rhifedd gan y byddem yn disgwyl naill ai bod y rhain wedi'u gwreiddio dan y pedwar conglfaen neu, lle y bo'n berthnasol, fod dysgwyr yn dilyn cymhwyster Sgiliau Hanfodol ar lefel mynediad 1 ac uwch.

Lle mae dysgwr yn gwneud cymhwyster Sgiliau Hanfodol, dylid cofnodi hwn fel Craidd gan ddefnyddio'r rhif QAN perthnasol yn LA06.

*Prif weithgaredd*

I gofnodi gweithgaredd ar LA47 â "5" (Prif), rhaid i gymhwyster fodoli yng nghronfa ddata Cymwysterau Cymru. Ar gyfer rhaglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol nas achredir ni fyddem yn disgwyl gweld unrhyw weithgaredd yn cael ei gofnodi fel Prif.

Dylai unrhyw unedau o gymwysterau neu weithgareddau dysgu asesadwy eraill sy'n gysylltiedig â datblygu sgiliau gael eu cofnodi fel CLIF.

*Unedau o Gymwysterau neu Weithgareddau Dysgu Asesadwy Eraill (CLIF)*

Dylai unedau o gymwysterau neu weithgareddau dysgu asesadwy eraill (h.y. LA40=1) gael eu cofnodi yn LA47 â "06" (CLIF) a chael eu codio yn unol â'r canllawiau yn LA06 gan ddefnyddio'r fformat *LTQQXXXX*. Rhaid i weithgaredd asesadwy fod yn berthnasol i anghenion y dysgwr unigol, h.y. wedi'i gysylltu'n glir â chyflawni deilliant y cytunwyd arno.

Yn unol â'r canllawiau yn LA06, defnyddiwch y fformat canlynol os gwelwch yn dda:

| | |
|---|---|
| LCCC*XXXX* | Ar gyfer unedau OCN |
| LCKK*XXXX* | Ar gyfer gweithgareddau galwedigaethol |
| LCLL*XXXX* | Ar gyfer gweithgareddau dysgu analwedigaethol |

Ar gyfer y dynodwr *XXXX*, dylai hyn adlewyrchu'r conglfaen Sgiliau Byw'n Annibynnol, felly:

| | |
|---|---|
| HW*NN* | Ar gyfer gweithgareddau dan y conglfaen Iechyd a Lles |
| EM*NN* | Ar gyfer gweithgareddau dan y conglfaen Cyflogadwyedd |
| IL*NN* | Ar gyfer gweithgareddau dan y conglfaen Byw'n Annibynnol |
| CI*NN* | Ar gyfer gweithgareddau dan y conglfaen Cynhwysiant Cymunedol |

Byddai *NN* yn yr achos hwn yn rhif i wahaniaethu rhwng dau nod dysgu o'r un math.

*Gweithgaredd Profiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith*

Dylai profiad sy'n gysylltiedig â gwaith (WRE) sy'n digwydd y tu allan i'r amgylchedd AB gael ei gofnodi dan WRE gan ddefnyddio'r fformat "LCKKEMWE".

## 6. Monitro a Deilliannau Dysgu

Bydd y dull o fonitro’n canolbwyntio ar gydymffurfio â holl fanylebau’r rhaglenni. Mae rhaglenni Sgiliau Byw’n Annibynnol yn dal i fod y tu allan i’r mesurau perfformiad.

## 7. Manylion Cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau sy’n ymwneud â chynnwys y Fanyleb Rhaglen hon, cysylltwch â Medr: Buddsoddiadamonitro@medr.cymru.

## 8. Atodiadau

### *A. Manyleb Rhaglen Llwybr 1*

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

| | |
|---|---|
| Enw'r Rhaglen | Llwybr 1 |
| Cod y Rhaglen | 1401AXXB |
| Maes Pwnc Sector | Sylfeini ar gyfer Dysgu a Bywyd |

**Amlinelliad o ddiben a deilliannau'r rhaglen**

Mae Llwybr 1 yn bennaf ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu a/neu anableddau dwys. Mae hyn yn cynnwys ystod o ddysgwyr; o'r rhai nad ydynt ond yn gallu wynebu gweithgareddau a phrofiadau, gan roi ymatebion atgyrchol; i'r rhai sy'n cyfathrebu â geirfa gynyddol, gan wrando, ymateb a dilyn cyfarwyddiadau syml, a dechrau adnabod ac ysgrifennu geiriau syml.

Mae dysgwyr ar Lwybr 1 yn debygol o fod angen cymorth sylweddol trwy gydol eu rhaglen astudio, i'w galluogi i wneud cynnydd ac i sicrhau lles a diogelwch.

Mae tri o'r pedwar conglfaen dysgu'n darparu Craidd y rhaglen:
- Iechyd a Lles
- Byw'n Annibynnol
- Cynhwysiant Cymunedol

Dylai'r cwricwlwm ddarparu dull ymarferol ar gyfer cynnal, ennill a chyfnerthu sgiliau yn y meysydd hyn. Mae dulliau synhwyraidd yn arbennig o bwysig ar gyfer y dysgwyr hyn. Dylai fod ffocws ar ddatblygu sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio, gan gynnwys defnyddio technoleg gynorthwyol, i baratoi dysgwyr ar gyfer bywyd fel oedolion.

Mae cynllunio a arweinir gan gyrchfan ar gyfer pob dysgwr yn rhan allweddol o'r rhaglen hon. Ar ôl adnabod man cychwyn a nod, dylai'r ystod o weithgareddau ar y rhaglen hon gael eu dylunio i ddarparu'r wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i ddysgwyr sy'n berthnasol ar gyfer eu taith ddysgu unigol hwy. Bydd tystiolaeth o gynnydd y dysgwr yn cael ei dangos trwy lwyddiant i gyrraedd targedau y cytunwyd arnynt rhwng pawb.

Trwy astudio ar y rhaglen hon, bydd dysgwyr yn cael eu cynorthwyo i wneud y canlynol:

- Cyfrannu at gynllunio eu rhaglen unigol mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a fydd yn adnabod eu cryfderau presennol a'u meysydd ar gyfer datblygiad sgiliau perthnasol o fewn fframwaith y pedwar conglfaen.
- Cytuno ar dargedau unigol realistig ar gyfer eu rhaglen ddysgu.

- Cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ymarferol o fewn pob un o'r tri maes o fewn fframwaith pedwar conglfaen Sgiliau Byw'n Annibynnol.
- Gwneud cynnydd tuag at eu targedau unigol trwy weithgareddau dysgu sy'n berthnasol i'w bywydau ar hyn o bryd, i'w proses bontio i fod yn oedolion a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.
- Gwneud cynnydd tuag at dargedau unigol sy'n cynnal, yn datblygu ac yn gwella sgiliau cyfathrebu, sgiliau rhifedd a sgiliau llythrennedd digidol trwy weithgareddau sydd wedi'u gwreiddio o fewn fframwaith y pedwar conglfaen.
- Cyfrannu at adolygiadau o'u dysgu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, i adnabod y cynnydd a wnaed yn erbyn targedau unigol a nodi'r camau nesaf.

Nid yw achrediad yn brif ddeilliant nac yn ddeilliant angenrheidiol ar gyfer y rhaglen hon; yn lle hynny mae deilliannau cynnydd yn seiliedig ar gyrraedd targedau unigol sy'n ymwneud â pharatoi ar gyfer bywyd fel oedolyn. Dylid rhoi blaenoriaeth uchel i asesiad sylfaenol mewn perthynas â'r pedwar conglfaen ac o ran sicrhau bod mecanweithiau yn eu lle fel bod targedau dysgwyr yn briodol ac yn ddigon o her.

Mae ansawdd a thrylwyredd y rhaglen yn cael eu cynnal trwy ddefnyddio systemau, megis RARPA, i fesur cynnydd a chyflawniadau dysgwyr.

## Cyrchfannau Tebygol

Bydd ar ddysgwyr angen cymorth parhaus sylweddol ym mhob agwedd ar eu bywydau er mwyn byw a bod yn eu cymunedau lleol. Darpariaeth gofal cymdeithasol a/neu ddarpariaeth ddydd yw'r cyrchfan tebygol ar gyfer dysgwyr pan ydynt yn gadael y coleg.

## Gofynion y Rhaglen: Craidd

Mae'r Craidd yn seiliedig ar bedwar conglfaen Sgiliau Byw'n Annibynnol a dylai gael ei ddylunio'n benodol i ddarparu gweithgareddau i alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd yn y dyfodol. Rhaid iddo hefyd ganiatáu amser i gyflawni a gwreiddio'r sgiliau hyn yn realistig. Mae sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio, gan gynnwys defnyddio technoleg gynorthwyol, yn rhan allweddol o ddysgu gyda chyfleoedd i ddatblygu ac ymarfer y sgiliau hyn sydd wedi'u gwreiddio ym mhob un o'r conglfeini.

| **Iechyd a Lles** | **Cyflogadwyedd*** | **Byw'n Annibynnol** | **Cynhwysiant Cymunedol** |
|---|---|---|---|
| Iechyd | Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am yr amgylchedd gwaith | Dewis a gwneud penderfyniadau | Cael mynediad at y gymuned a chyfranogi ynddi (y coleg ac yn lleol) |
| Symud | Ymateb i anghenion pobl eraill | Cyfleu anghenion | Datblygu sgiliau cymdeithasol ar gyfer bywyd fel oedolyn |
| Diet | Bod yn barod ar gyfer gwaith | Hylendid personol | Deall eu hunain |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Iechyd Rhyw | Cydweithio/ gweithio mewn tîm | Hyder cyffredinol | Uniaethu'n briodol ag eraill yn barod ar gyfer bywyd fel oedolyn |
| Diogelu | Cyfathrebu | Dysgu defnyddio technoleg briodol a strategaethau ar gyfer annibyniaeth | |
| Creadigrwydd | Eu hymddygiad a'u perfformiad eu hunain | | |
| Cyfleu hoff bethau a chas bethau | Dilyn cyfarwyddiadau | | |
| Gwneud dewisiadau gwybodus | Iechyd a diogelwch | | |
| Diogelu – cadw eu hunain yn ddiogel gartref ac yn y gymuned | | | |

*Nid yw cyflogadwyedd yn orfodol i ddysgwyr ag anghenion dwys iawn. Os oes dysgwyr sy'n fwy abl ac y byddai cyflogaeth â chymorth yn bosibilrwydd iddynt gallai'r Craidd gynnwys yr elfennau a restrir uchod.

## Gofynion y Rhaglen: Profiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith (WRE)

Os teimlir ei bod yn briodol i ddysgwyr gymryd rhan mewn Profiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith, bydd hynny mewn amgylchedd cyfarwydd a chefnogol gydag elfen o ddiddordeb/ dewis galwedigaethol. Gall Profiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith gynnwys cysylltiadau â mentrau cymdeithasol lleol. Dylai tasgau gwaith fod wedi'u teilwra i bob dysgwr yn dilyn asesiad o'u galluoedd, a dealltwriaeth am ofynion tebygol y dasg.

Mae paratoi ar gyfer Profiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith wedi'i gynnwys yn yr elfen Graidd cyflogadwyedd, ond dylid cynnwys ymweliadau blas-ar-waith a pharatoi penodol ar gyfer lleoliad yn y rhan Profiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith o'r cwricwlwm.

Bydd angen cymorth sylweddol ar gyfer unrhyw Brofiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith i alluogi lleoliad cyflogaeth llwyddiannus, parhaus ac i sicrhau lles a diogelwch, yn enwedig ar ddechrau'r lleoliad.

## Gofynion y Rhaglen: Cymwysterau neu Weithgareddau Dysgu Asesadwy eraill

Ar gyfer dysgwyr Llwybr 1 mae cymwysterau'n annhebygol o fod yn briodol. Yn hytrach, dylai'r ffocws fod ar ddarparu gweithgareddau sy'n adlewyrchu anghenion dysgwyr unigol; gyda chynnydd tuag at ddeilliannau cytunedig yn cael ei gofnodi a'i gymedroli trwy ddulliau sicrhau ansawdd dibynadwy, megis RARPA.

| | |
|---|---|
| Cyfanswm Oriau Cyswllt Dan Arweiniad ar gyfer y Rhaglen | 650 |

***B. Manyleb Rhaglen Llwybr 2***

| | |
|---|---|
| Enw'r Rhaglen | Llwybr 2 |
| Cod y Rhaglen | 1401BXXB |
| Maes Pwnc Sector | Sylfeini ar gyfer Dysgu a Bywyd |

**Amlinelliad o ddiben a deilliannau'r rhaglen**

Mae Llwybr 2 yn bennaf ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu a/neu anableddau difrifol. Gall dysgwyr fod ag ystod o gyflyrau sy'n arwain at namau deallusol neu wybyddol sylweddol. Gall dysgwyr fod ag anawsterau symudedd, cydsymud, cyfathrebu a chanfyddiad hefyd. Mae eto'n bwysig nodi nad yw Saesneg fel Ail Iaith yn gyfystyr ag angen am raglen Llwybr 2. Bydd y mwyafrif, os nad y cyfan, wedi mynychu ysgolion arbennig yn hytrach na darpariaeth mewn ysgol brif ffrwd.

Mae dysgwyr ar Lwybr 2 yn debygol o fod angen cymorth ym mhob maes o fewn y cwricwlwm, i'w galluogi i wneud cynnydd ac i sicrhau lles a diogelwch.

Mae'r pedwar conglfaen dysgu'n darparu Craidd y rhaglen:

- Iechyd a Lles
- Cyflogadwyedd
- Byw'n Annibynnol
- Cynhwysiant Cymunedol

Mae'r cwricwlwm yn darparu dull ymarferol o ennill a chyfnerthu sgiliau ym mhob un o'r meysydd hyn i baratoi dysgwyr ar gyfer bywyd fel oedolion.

Mae sgiliau cyfathrebu, rhifedd a llythrennedd digidol yn rhan allweddol o ddysgu, gyda chyfleoedd i ddatblygu ac ymarfer y sgiliau hyn wedi'u gwreiddio o fewn pob un o'r pedwar conglfaen.

Mae cynllunio a arweinir gan gyrchfan ar gyfer pob dysgwr yn rhan allweddol o'r rhaglen hon. Ar ôl adnabod man cychwyn a nod, dylai'r ystod o weithgareddau ar y rhaglen hon gael eu dylunio i ddarparu'r wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i ddysgwyr sy'n berthnasol ar gyfer eu taith ddysgu unigol hwy. Bydd tystiolaeth o gynnydd y dysgwr yn cael ei dangos trwy lwyddiant i gyrraedd targedau y cytunwyd arnynt rhwng pawb.

Trwy astudio ar y rhaglen hon, bydd dysgwyr yn:

- Cyfranogi mewn cynllunio eu rhaglen unigol mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan adnabod eu cryfderau presennol a'u meysydd ar gyfer datblygiad sgiliau perthnasol o fewn fframwaith y pedwar conglfaen.

- Cytuno ar dargedau unigol realistig ar gyfer eu rhaglen ddysgu.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ymarferol o fewn pob un o feysydd fframwaith y pedwar conglfaen.
- Gweithio i wneud cynnydd tuag at eu targedau unigol trwy weithgareddau dysgu sy'n berthnasol i'w bywydau ar hyn o bryd, i'w proses bontio i fod yn oedolion a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.
- Gweithio i wneud cynnydd tuag at dargedau unigol sy'n cynnal, yn datblygu ac yn gwella sgiliau cyfathrebu, rhifedd a llythrennedd digidol trwy weithgareddau sydd wedi'u gwreiddio o fewn fframwaith y pedwar conglfaen.
- Cyfranogi mewn adolygiadau o'u dysgu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan adnabod y cynnydd a wnaed yn erbyn targedau unigol a chytuno ar y camau nesaf.

Nid yw achrediad yn brif ddeilliant nac yn ddeilliant angenrheidiol ar gyfer y rhaglen hon; yn lle hynny mae deilliannau cynnydd yn seiliedig ar gyrraedd targedau unigol sy'n ymwneud â pharatoi ar gyfer bywyd fel oedolyn. Dylid rhoi blaenoriaeth uchel i asesiad sylfaenol mewn perthynas â'r pedwar conglfaen ac o ran sicrhau bod mecanweithiau yn eu lle fel bod targedau dysgwyr yn briodol ac yn ddigon o her.

Mae ansawdd a thrylwyredd y rhaglen yn cael eu cynnal trwy ddefnyddio systemau, megis RARPA, i fesur cynnydd a chyflawniadau dysgwyr.

## Cyrchfannau Tebygol

Mae dysgwyr yn debygol o fyw bywydau lled-annibynnol pan fyddant yn gadael y coleg ond bydd arnynt angen cymorth parhaus i ddatblygu a chynnal eu hannibyniaeth, chwarae rhan weithredol yn y gymuned ac unrhyw amgylchedd gwaith. Gall rhai dysgwyr gamu ymlaen i raglenni Llwybr 3 neu 4 o fewn y SAB.

## Gofynion y Rhaglen: Craidd

Mae dysgwyr sy'n cael mynediad at y rhaglen hon yn debygol o fod â phroffiliau "pigog". Bydd eu galluoedd ar ystod o wahanol lefelau o Garreg Filltir 5 i Lefel Mynediad 2 a gallant fod â sgiliau ar lefelau uwch ac is. Bydd y cwricwlwm yn canolbwyntio ar yr unigolyn gyda ffocws cryf ar asesiad cychwynnol i adnabod sgiliau a thargedau gwybodaeth, anghenion yn y dyfodol a chyfleoedd i gamu ymlaen.

Mae'r Craidd yn seiliedig ar bedwar conglfaen Sgiliau Byw'n Annibynnol a dylai gael ei ddylunio'n benodol i ddarparu gweithgareddau sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd yn y dyfodol. Rhaid iddo hefyd ganiatáu amser i gyflawni a gwreiddio'r sgiliau hyn yn realistig.

| **Iechyd a Lles** | **Cyflogadwyedd** | **Byw'n Annibynnol** | **Cynhwysiant Cymunedol** |
|---|---|---|---|
| Ennill sgiliau a gwybodaeth am sut i gynnal iechyd, diet iach ac iechyd rhyw | Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am yr amgylchedd gwaith | Sgiliau dewis a gwneud penderfyniadau | Cael mynediad at y gymuned a chyfranogi ynddi (y coleg ac yn lleol) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwneud dewisiadau gwybodus | Datblygu sgiliau galwedigaethol | Hunaneiriolaeth (cyfleu anghenion yn briodol) | Dod yn hyderus mewn defnyddio cyfleusterau cymunedol, megis canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, siopau, cludiant cyhoeddus |
| Diogelu – cadw'n ddiogel gartref, yn y gymuned ac ar-lein | Ymateb i anghenion pobl eraill | Sgiliau hylendid personol | Diogelwch ar y ffyrdd a dod o hyd i'r ffordd |
| Sgiliau a hyder mewn ffitrwydd corfforol, gan ddeall yr angen am ymarfer corff a datblygu'r cymhelliant i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol rheolaidd am oes | Bod yn barod ar gyfer gwaith | Hyder cyffredinol | Datblygu sgiliau cymdeithasol ar gyfer bywyd fel oedolyn |
| Datblygu sgiliau cydnerthedd a strategaethau ymdopi | Cadw amser a chynhyrchiant | Dysgu defnyddio technoleg briodol | Cyfrifoldeb cymunedol, megis cadw mannau cymunedol yn lân, bod yn ymwybodol o anghenion pobl eraill, dangos ymddygiad priodol yn gyhoeddus |
| Deall eu hunain ac uniaethu'n briodol ag eraill yn barod ar gyfer bywyd fel oedolyn | Cydweithio/ gweithio mewn tîm | Strategaethau ar gyfer annibyniaeth | |
| Datblygu sgiliau creadigrwydd, ehangu eu gwybodaeth am hobïau a diddordebau | Cyfathrebu | Defnyddio cludiant cyhoeddus | |
| | Eu hymddygiad a'u perfformiad eu hunain | Cadw amser | |
| | Dilyn cyfarwyddiadau | Sgiliau coginio a glanhau | |
| | Iechyd a diogelwch | Sgiliau cyllidebu ac arian | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Sgiliau cymdeithasol | Perthnasoedd | |
| | Ymwybyddiaeth o'u sgiliau eu hunain | Ehangu eu gwybodaeth am hobïau a diddordebau | |
| | Rolau a chyfrifoldebau yn y gweithle | | |

Bydd datblygiad sgiliau cyfathrebu mynegiannol a derbyngar unigolion yn elfen Graidd o'r rhaglen. Bydd hefyd yn cynnwys datblygu sgiliau rhifedd a llythrennedd digidol a ddarperir yn ymarferol trwy'r pedwar conglfaen dysgu hyn.

## Gofynion y Rhaglen: Profiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith

Bydd Profiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith mewn amgylchedd cefnogol sy'n gysylltiedig â ddiddordeb/dewis galwedigaethol dysgwyr. Gall Profiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith gynnwys cysylltiadau â mentrau cymdeithasol lleol. Dylai tasgau gwaith fod wedi'u teilwra i bob dysgwr yn dilyn asesiad o alluoedd dysgwyr, a dealltwriaeth am ofynion tebygol y dasg.

Mae paratoi ar gyfer profiad gwaith wedi'i gynnwys yn yr elfen Graidd cyflogadwyedd, ond bydd ymweliadau blas-ar-waith a pharatoi penodol ar gyfer lleoliad yn cael eu cynnwys yn y rhan Profiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith o'r cwricwlwm.

Mae'n debygol y bydd angen cymorth sylweddol ar gyfer unrhyw brofiad gwaith i alluogi lleoliad cyflogaeth llwyddiannus, parhaus ac i sicrhau lles a diogelwch, yn enwedig ar ddechrau'r lleoliad. Lle y bo'n briodol, dylid dewis lleoliadau profiad gwaith gyda golwg bod y lleoliad yn arwain at gyflogaeth bosibl yn y dyfodol.

## Gofynion y Rhaglen: Cymwysterau neu Weithgareddau Dysgu Asesadwy eraill

Ar gyfer dysgwyr Llwybr 2 gellir ystyried cymhwyster neu unedau o gymwysterau, ond dim ond os yw'r rhain yn berthnasol i dargedau a chynnydd unigol y dysgwyr.

Ni fydd angen i'r holl ddysgwyr wneud cymwysterau neu unedau o gymwysterau gan ei bod yn bosibl na fydd hyn yn ofynnol lle mae'r Craidd wedi ymdrin yn llawn â gofynion y dysgwr. Yn hytrach, dylai'r ffocws fod ar ddarparu gweithgareddau sy'n adlewyrchu anghenion dysgwyr unigol; gyda chynnydd tuag at ddeilliannau cytunedig yn cael ei gofnodi a'i gymedroli trwy ddulliau sicrhau ansawdd dibynadwy, megis RARPA.

| Cyfanswm Oriau Cyswllt Dan Arweiniad ar gyfer y Rhaglen | 650 |
|---|---|

## *C. Manyleb Rhaglen Llwybr 3*

| | |
|---|---|
| Enw'r Rhaglen | Llwybr 3 |
| Cod y Rhaglen | 1401CXXB |
| Maes Pwnc Sector | Sylfeini ar gyfer Dysgu a Bywyd |

| Amlinelliad o ddiben a deilliannau'r rhaglen |
|---|
| Bydd dysgwyr ar raglenni Llwybr 3 yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd. Efallai y bydd gan rai anawsterau a/neu anableddau dysgu. Efallai y bydd gan eraill anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl a achosodd oedi gyda'u datblygiad sgiliau neu a amharodd arno. Efallai na fydd rhai dysgwyr wedi ffynnu yn amgylchedd academaidd yr ysgol, gan arwain at effaith ar eu hymddygiad, eu cyrhaeddiad, eu hunanhyder a'u cymhelliant/agwedd at ddysgu.<br><br>Mae'r pedwar conglfaen dysgu'n darparu Craidd y rhaglen:<br>• Iechyd a Lles<br>• Cyflogadwyedd<br>• Byw'n Annibynnol<br>• Cynhwysiant Cymunedol<br><br>Mae'r cwricwlwm yn darparu dull ymarferol o ennill a chyfnerthu sgiliau ym mhob un o'r meysydd hyn i baratoi dysgwyr ar gyfer bywyd fel oedolion.<br><br>Mae sgiliau cyfathrebu, rhifedd a llythrennedd digidol yn rhan allweddol o ddysgu, gyda chyfleoedd i ddatblygu ac ymarfer y sgiliau hyn wedi'u gwreiddio o fewn pob un o'r pedwar conglfaen.<br><br>Mae cynllunio a arweinir gan gyrchfan ar gyfer pob dysgwr yn rhan allweddol o'r rhaglen hon. Ar ôl adnabod man cychwyn a nod, dylai'r ystod o weithgareddau ar y rhaglen hon gael eu dylunio i ddarparu'r wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i ddysgwyr sy'n berthnasol ar gyfer eu taith ddysgu unigol hwy. Bydd tystiolaeth o gynnydd y dysgwr yn cael ei dangos trwy lwyddiant i gyrraedd targedau y cytunwyd arnynt rhwng pawb.<br><br>Trwy astudio ar y rhaglen hon, bydd dysgwyr yn:<br><br>• Cyfranogi mewn cynllunio eu rhaglen unigol mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan adnabod eu cryfderau presennol a'u meysydd ar gyfer datblygiad sgiliau perthnasol o fewn fframwaith y pedwar conglfaen.<br>• Cytuno ar dargedau unigol realistig ar gyfer eu rhaglen ddysgu.<br>• Cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ymarferol o fewn pob un o feysydd fframwaith y pedwar conglfaen. |

- Gweithio i wneud cynnydd tuag at eu targedau unigol trwy weithgareddau dysgu sy'n berthnasol i'w bywydau ar hyn o bryd, i'w proses bontio i fod yn oedolion a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.
- Gweithio i wneud cynnydd tuag at dargedau unigol sy'n datblygu ac yn gwella sgiliau cyfathrebu, sgiliau rhifedd a sgiliau llythrennedd digidol trwy weithgareddau sydd wedi'u gwreiddio o fewn fframwaith y pedwar conglfaen.
- Cyfranogi mewn adolygiadau o'u dysgu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan adnabod y cynnydd a wnaed yn erbyn targedau unigol a chytuno ar y camau nesaf.

Nid yw achrediad yn brif ddeilliant nac yn ddeilliant angenrheidiol ar gyfer y rhaglen hon; yn lle hynny mae deilliannau cynnydd yn seiliedig ar gyrraedd targedau unigol sy'n ymwneud â pharatoi ar gyfer bywyd fel oedolyn. Ar Lwybr 3 gall dysgwyr wneud cymwysterau a/neu unedau o gymwysterau perthnasol ac ystyrlon sy'n gysylltiedig â chynnydd tuag at eu cyrchfan. Dylid rhoi blaenoriaeth uchel i asesiad sylfaenol mewn perthynas â'r pedwar conglfaen ac o ran sicrhau bod mecanweithiau yn eu lle fel bod targedau dysgwyr yn briodol ac yn ddigon o her.

Mae ansawdd a thrylwyredd y rhaglen yn cael eu cynnal trwy ddefnyddio systemau, megis RARPA, i fesur cynnydd a chyflawniadau dysgwyr.

## Cyrchfannau Tebygol

Gallai dysgwyr gamu ymlaen i gyflogaeth â chymorth neu gael cyflogaeth heb gymorth. Mae byw'n annibynnol yn gyrchfan hirdymor tebygol i'r rhan fwyaf o ddysgwyr, er y bydd rhai'n dal i fod angen cymorth ar gyfer byw. Gall dysgwyr gamu ymlaen at ddysgu pellach ar Lwybr 4 neu raglenni AB eraill.

## Gofynion y Rhaglen: Craidd

Mae dysgwyr sy'n cael mynediad at y rhaglen hon yn debygol o fod â phroffiliau "pigog". Bydd eu galluoedd ar ystod o wahanol lefelau a gallant fod â sgiliau ar lefelau uwch ac is. Bydd y cwricwlwm yn canolbwyntio ar yr unigolyn gyda ffocws cryf ar asesiad cychwynnol i adnabod sgiliau a thargedau gwybodaeth, anghenion yn y dyfodol a chyfleoedd i gamu ymlaen.

Mae'r Craidd yn seiliedig ar bedwar conglfaen Sgiliau Byw'n Annibynnol a dylai gael ei ddylunio'n benodol i ddarparu gweithgareddau sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd yn y dyfodol. Rhaid iddo hefyd ganiatáu amser i gyflawni a gwreiddio'r sgiliau hyn yn realistig.

| Iechyd a Lles | Cyflogadwyedd | Byw'n Annibynnol | Cynhwysiant Cymunedol |
|---|---|---|---|
| Ennill sgiliau a gwybodaeth am sut i gynnal iechyd, diet iach ac iechyd rhyw | Datblygu sgiliau galwedigaethol | Cymryd cyfrifoldeb amdanynt hwy eu hunain a'u gweithredoedd | Cael mynediad at y gymuned a chyfranogi ynddi (y coleg ac yn lleol) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwneud dewisiadau gwybodus | Cael ymwybyddiaeth o ystod o gyfleoedd galwedigaethol | Sgiliau dewis a gwneud penderfyniadau | Dod yn hyderus mewn defnyddio cyfleusterau cymunedol, megis canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, siopau, cludiant cyhoeddus |
| Diogelu – cadw'n ddiogel gartref, yn y gymuned ac ar-lein | Deall yr amgylchedd gwaith a datblygu etheg gwaith | Hunaneiriolaeth | Diogelwch ar y ffyrdd a dod o hyd i'r ffordd |
| Sgiliau a hyder mewn ffitrwydd corfforol, gan ddeall yr angen am ymarfer corff a datblygu'r cymhelliant i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol rheolaidd am oes | Ymateb i anghenion pobl eraill | Sgiliau hylendid personol | Datblygu sgiliau cymdeithasol ar gyfer bywyd fel oedolyn |
| Datblygu sgiliau cydnerthedd a strategaethau ymdopi | Bod yn barod ar gyfer gwaith | Hyder cyffredinol | Cyfrifoldeb cymunedol, megis ymwybyddiaeth o'u gweithredoedd eu hunain a chanlyniadau, cadw mannau cymunedol yn lân, bod yn ymwybodol o anghenion pobl eraill, dysgu am gyfleoedd gwirfoddoli yn y gymuned leol, dangos ymddygiad priodol yn gyhoeddus |
| Deall eu hunain ac uniaethu'n briodol ag eraill yn barod ar gyfer bywyd fel oedolyn | Cadw amser a chynhyrchiant | Dysgu defnyddio technoleg briodol a strategaethau ar gyfer annibyniaeth | |
| Datblygu sgiliau creadigrwydd, ehangu eu gwybodaeth am | Cydweithio/ gweithio mewn tîm | Defnyddio cludiant cyhoeddus | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| hobïau a diddordebau | | | |
| | Eu hymddygiad a'u perfformiad eu hunain | Cadw amser | |
| | Dilyn cyfarwyddiadau | Sgiliau coginio a glanhau | |
| | Iechyd a diogelwch | Sgiliau cadw cartref syml | |
| | Cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol | Sgiliau gofalu | |
| | Ymwybyddiaeth o'u sgiliau eu hunain | Cymorth cyntaf | |
| | Rolau a chyfrifoldebau yn y gweithle | Cyllidebu a chyllid | |
| | Technegau ymgeisio am swydd a chyfweliad | Perthnasoedd | |
| | | Datrys gwrthdaro | |
| | | Ehangu gwybodaeth am hobïau a diddordebau | |

Bydd y Craidd yn cynnwys ffocws ar gyfathrebu a bydd hefyd yn cynnwys datblygu sgiliau rhifedd a llythrennedd digidol perthnasol. Bydd y sgiliau hyn yn cael eu gwreiddio'n ymarferol trwy'r pedwar conglfaen dysgu. Mae dysgwyr ar raglenni Llwybr 3 yn fwy tebygol o fod angen achrediad/cymwysterau yn y tri maes hyn. Lle addysgir y sgiliau hyn ar wahân, dylai dysgu gael ei gyd-destunoli fel eu bod yn dal i fod yn berthnasol i'r dysgwr unigol.

## Gofynion y Rhaglen: Profiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith

Mae Profiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith yn elfen bwysicach i ddysgwr Llwybr 3, nag i ddysgwyr ar Lwybr 1 neu 2 gan ei bod yn debygol mai gwaith fydd y cyrchfan ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr.

Bydd Profiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith mewn amgylchedd cefnogol sy'n gysylltiedig â ddiddordeb/dewis galwedigaethol dysgwyr. Gall Profiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith gynnwys cysylltiadau â mentrau cymdeithasol lleol. Dylai tasgau gwaith fod wedi'u teilwra i bob dysgwr yn dilyn asesiad o alluoedd dysgwyr, a dealltwriaeth am ofynion tebygol y dasg.

Mae paratoi ar gyfer profiad gwaith wedi'i gynnwys yn yr elfen Graidd cyflogadwyedd, ond bydd ymweliadau blas-ar-waith a pharatoi penodol ar gyfer lleoliad yn cael eu cynnwys yn y rhan Profiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith o'r cwricwlwm.

Mae'n debygol y bydd angen peth cymorth ar gyfer profiad gwaith i alluogi lleoliad cyflogaeth llwyddiannus, parhaus ac i sicrhau lles a diogelwch, yn enwedig ar ddechrau'r lleoliad. Dylid dewis lleoliadau profiad gwaith gyda golwg bod y lleoliad yn arwain at gyflogaeth bosibl yn y dyfodol neu at gamu ymlaen i faes galwedigaethol penodol.

| Gofynion y Rhaglen: Cymwysterau neu Weithgareddau Dysgu Asesadwy eraill |
| --- |
| Ar gyfer dysgwyr Llwybr 3 mae cymwysterau a/neu unedau o gymwysterau'n fwy tebygol o fod yn briodol. Dylai'r elfen hon o'r rhaglen fod wedi'i theilwra i ddiwallu anghenion penodol y dysgwr. Dylai cymwysterau neu weithgareddau dysgu asesadwy eraill ychwanegu gwerth at raglen trwy ddatblygu sgiliau ehangach neu drwy ddatblygu sgiliau i lefel uwch i roi cymorth i gamu ymlaen at gyflogaeth neu astudio pellach.<br><br>Dylai'r ffocws ddal i fod ar ddarparu gweithgareddau sy'n adlewyrchu anghenion dysgwyr unigol; gyda chynnydd tuag at ddeilliannau cytunedig yn cael ei gofnodi a'i gymedroli trwy ddulliau sicrhau ansawdd dibynadwy, megis RARPA, gydag unrhyw gymwysterau/unedau o gymwysterau'n ychwanegu gwerth at y cynnydd tuag at gyrchfan terfynol y dysgwr. |

| Cyfanswm Oriau Cyswllt Dan Arweiniad ar gyfer y Rhaglen | 650 |
| --- | --- |

## D. Manyleb Rhaglen Llwybr 4

| | |
|---|---|
| Enw'r Rhaglen | Llwybr 4 |
| Cod y Rhaglen | 1401DXXB |
| Maes Pwnc Sector | Sylfeini ar gyfer Dysgu a Bywyd |

**Amlinelliad o ddiben a deilliannau'r rhaglen**

Bydd dysgwyr yn nodweddiadol rhwng 16 a 25 oed ac yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd. Bydd angen cymorth sylweddol arnynt i gyd i'w galluogi i lwyddo i gael cyflogaeth am dâl. Gallai'r asesiad o angen fod trwy'r canlynol:

- diagnosis,
- anabledd a/neu anhawster dysgu a/neu awtistiaeth,
- cynllun asesu anghenion.

Bydd angen hefyd i ddysgwyr fod ag agwedd aeddfed, bod yn fodlon dysgu a datblygu eu sgiliau a bod yn ymroddedig i ddod o hyd i gyflogaeth. Bydd llawer o'r dysgwyr wedi camu ymlaen o Lwybr 2 neu 3 a'r Llwybr hwn fydd y "flwyddyn derfynol" i ddysgwyr sydd â'r potensial i gamu ymlaen at gyflogaeth am dâl. Ni fyddai Medr yn disgwyl i ddysgwyr o raglen brif ffrwd gael mynediad at Lwybr 4 oni bai yr adnabyddir angen. Rhaid i unrhyw ddysgwyr sy'n ymgysylltu â darpariaeth Llwybr 4 o raglenni prif ffrwd gael eu trafod gyda Medr er mwyn i ni allu goleuo polisi yn y maes hwn yn y dyfodol. Ceir ffurflen i wneud hynny yn Atodiad E.

Datblygwyd Llwybr 4 i gynorthwyo dysgwyr i gael cyflogaeth gynaliadwy am dâl trwy gyfuno dysgu yn y gweithle â rhaglen astudio wedi'i phersonoli sy'n cynnwys elfennau o'r pedwar conglfaen dysgu. Ffocws y rhaglen yw arfogi dysgwyr â'r sgiliau a chymwysterau perthnasol y bydd eu hangen arnynt ar gyfer cyflogaeth yn eu dewis faes.

Mae sgiliau cyfathrebu, rhifedd a llythrennedd digidol yn dal i fod yn rhan allweddol o ddysgu, gyda chyfleoedd i ddatblygu ac ymarfer y sgiliau hyn yn y gweithle ac wedi'u gwreiddio o fewn pob un o'r pedwar conglfaen.

Nod Llwybr 4 yw paratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth am dâl trwy:

- Eu cynorthwyo i ddatblygu sgiliau a werthfawrogir gan gyflogwyr.
- Eu galluogi i ddangos eu gwerth yn y gweithle.
- Datblygu hyder yn eu galluoedd eu hunain i berfformio'n llwyddiannus yn y gwaith.

Trwy astudio ar y rhaglen hon, bydd dysgwyr yn:

- Cyfranogi mewn cynllunio eu rhaglen unigol mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan adnabod eu cryfderau presennol a'u meysydd ar gyfer datblygiad sgiliau perthnasol ar gyfer cyflogaeth lwyddiannus.

- Cytuno ar ddeilliannau a thargedau unigol realistig ar gyfer eu rhaglen ddysgu.
- Cymryd rhan mewn gwaith ystyrlon am fwyafrif sylweddol o'r amser ar safle'r cyflogwr lle bydd disgwyl iddynt gydymffurfio ag amodau gwaith go iawn.
- Gweithio i wneud cynnydd tuag at eu targedau unigol sy'n datblygu ac yn gwella eu sgiliau cyflogadwyedd, ynghyd â'u sgiliau cyfathrebu, rhifedd a llythrennedd digidol, fel eu bod yn fwy parod ar gyfer gwaith.
- Cael y cyfle i ymarfer a gwella eu sgiliau annibyniaeth gan gynnwys, lle y bo'n briodol, teithio'n annibynnol i ac o'r gweithle.
- Cael profiad yn y gwaith ar gyfer eu CV gan ddangos bod ganddynt y sgiliau a pharodrwydd i ddysgu.
- Cyfranogi mewn adolygiadau o'u dysgu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan adnabod y cynnydd a wnaed.

Dylid rhoi blaenoriaeth uchel i asesiad sylfaenol a phwysigrwydd rhoi mecanweithiau yn eu lle i sicrhau bod targedau dysgwyr yn briodol ac yn ddigon o her. Mae ansawdd a thrylwyredd y rhaglen yn cael eu cynnal trwy ddefnyddio systemau, megis RARPA, i fesur cynnydd a chyflawniadau dysgwyr.

## Cyrchfannau Tebygol

Y deilliant delfrydol ar gyfer dysgwr Llwybr 4 fydd cael cynnig cyflogaeth am dâl, o bosibl gan y cyflogwr a letyodd leoliad gwaith yr intern. Gallai deilliannau eraill gynnwys cyrraedd targedau unigol sy'n ymwneud â pharatoi ar gyfer cyflogaeth a bywyd fel oedolyn ac ennill cymwysterau perthnasol ac ystyrlon a fydd yn eu cynorthwyo i gamu ymlaen.

## Gofynion y Rhaglen: Craidd

### Hyfforddiant wrth weithio

Rhaid i'r mwyafrif o amser y dysgwr gael ei dreulio ar safle'r cyflogwr lle bydd disgwyl i'r dysgwr gymryd rhan mewn gwaith ystyrlon a chydymffurfio ag amodau gwaith go iawn. Dylai'r interniaeth neu'r elfen seiliedig-ar-waith gynnig hyfforddiant wrth weithio gyda thasgau wedi'u rhannu'n gamau dysgu bychain. Gall y dull hyfforddi systematig gael ei ddefnyddio gan anogwyr gwaith, lle y bo'n bosibl, i helpu interniaid i ddysgu tasgau newydd. Gellir treulio mwy neu lai o amser yn y gwaith yn ôl anghenion y dysgwr, a bydd rhai dysgwyr â materion iechyd nad ydynt yn gallu bod yn y gwaith am gyfnodau hir. Mae gofynion y rhaglen yn hyblyg, a gall darparwyr gynnwys mynediad graddol i'r gweithle gydag oriau darparu yn y coleg neu mewn grŵp o fath arall yn cael eu cynnal ar y dechrau i baratoi dysgwyr ar gyfer dechrau llwyddiannus i'r interniaeth.

### Cymorth wrth weithio

Bydd angen mwy neu lai o gymorth ar bob dysgwr gan ddibynnu ar anghenion unigol. Mae interniaid yn debygol o fod angen mwy o gymorth ar y dechrau i alluogi lleoliad cyflogaeth llwyddiannus, parhaus ac i sicrhau lles a diogelwch. Dylai cymorth wrth weithio helpu'r intern i ddatblygu strategaethau a fydd yn eu galluogi i fod yn annibynnol yn y gweithle. Lle y bo'n bosibl dylai cymorth gael ei leihau fesul tipyn, gyda lefelau cymorth yn mynd yn llai wrth i'r intern ennill sgiliau a dod yn fwy hyderus.

**Hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith**
Bydd interniaid hefyd yn cymryd rhan mewn dysgu i ffwrdd o'r gwaith. Dylai hyn fod yn seiliedig ar rannau perthnasol o'r pedwar conglfaen dysgu a chynnwys ffocws cryf ar gyflogadwyedd a'r sgiliau ehangach y mae ar ddysgwyr eu hangen i allu gweithio'n annibynnol. Dylai ategu eu dysgu yn y gweithle a bod wedi'i bersonoli i anghenion a dyheadau penodol dysgwyr. Gall hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith hefyd gynnwys meysydd dysgu galwedigaethol penodol a dyfarniadau galwedigaethol perthnasol; er enghraifft, mewn hylendid bwyd neu iechyd a diogelwch.

Bydd yr elfen i ffwrdd o'r gwaith yn galluogi dysgwyr i weithio fel grŵp a chael cymorth gan ei gilydd. Bydd hefyd yn helpu dysgwyr i fondio fel grŵp; gan helpu i atal teimladau o arwahanrwydd yn eu gweithleoedd unigol.

| Gofynion y Rhaglen: Cymwysterau neu Weithgareddau Dysgu Asesadwy eraill |
| --- |
| Gall achrediad a chymwysterau fod yn briodol i ddysgwyr ar Lwybr 4. Dylai dysgwyr barhau i gael eu hasesu trwy gynnydd yn erbyn targedau unigol, ond dylai achrediad ffurfiol trwy unedau/cymwysterau sy'n berthnasol i ddeilliannau cyflogaeth, targedau unigol ac anghenion cynnydd y dysgwr gael eu hystyried hefyd. Mae ansawdd a thrylwyredd y rhaglen yn cael eu cynnal trwy ddefnyddio systemau, megis RARPA, i fesur cynnydd a chyflawniadau dysgwyr |

| Cyfanswm Oriau Cyswllt Dan Arweiniad ar gyfer y Rhaglen | 650 |
| --- | --- |

## *E. Dysgwyr o Raglenni Prif Ffrwd sy’n Cael Mynediad at ddarpariaeth Llwybr 4*

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

| | |
|---|---|
| Sefydliad | |
| Enw a chyfeiriad e-bost cyswllt y sefydliad | |
| Nifer y dysgwyr sy’n cael mynediad at Lwybr 4 o ddarpariaeth Brif Ffrwd | |
| Blwyddyn academaidd pan fo dysgwyr yn bwriadu dechrau ar Lwybr 4 | |

| Rhowch yr holl resymeg ar gyfer dysgwyr sy'n cael mynediad at Lwybr 4 o'r Prif Ffrwd. |
|---|
| |

| Amlinellwch y cyrchfannau terfynol ar gyfer y dysgwyr hyn |
|---|
| |

| Eglurwch y ddarpariaeth arall a ystyriwyd a pham nad oedd hon yn briodol |
|---|
| |

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government